Cyngor Partneriaeth Cymru – 9 Mawrth 2026

Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Banel Strategaeth Hinsawdd Llywodraeth Leol

Trosolwg

Mae'r papur hwn yn darparu cofnod o gynnydd llywodraeth leol tuag at uchelgais Cymru o gael sector cyhoeddus sero net erbyn 2030, ac argymhellion ar gyfer y camau nesaf.

Mae'r gwaith hwn yn rhoi arweinyddiaeth hanfodol a chynnydd tuag at y targed cyfreithiol i gyrraedd allyriadau sero net yng Nghymru erbyn 2050, fel yr amlinellir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, gan ddechrau gyda Chyllideb Garbon 3 ar gyfer 2026-30, ac yna cyllidebau carbon dilynol a cherrig milltir tuag at 2050. [1]

Mae gwaith y Llywodraeth Leol yn cael ei gefnogi gan y Panel Strategaeth Hinsawdd a Rhaglen Cefnogi Hinsawdd CLlLC (a ariannwyd gan LlC). Mae hyn yn cynnwys gwaith pum grŵp tasg a gorffen dan arweiniad Prif Swyddog Gweithredol yn mynd i'r afael ag addasu a lliniaru / datgarboneiddio (adeiladau, cludiant, caffael, a defnydd tir).

Sefydlwyd y grwpiau hyn i ddechrau fel grwpiau tasg a gorffen i gefnogi Llywodraeth Leol wrth gyflawni eu hymrwymiadau sero net (gweler **Atodiad 2**). Ar ôl dangos eu gwerth, ochr yn ochr â'r gefnogaeth a ddarparwyd gan Raglen Cefnogi Hinsawdd CLlLC, cynigiwyd eu bod yn dod yn grwpiau llywio parhaus i barhau i lywio a chynorthwyo cynghorau wrth i waith yn y meysydd hyn symud i Gyllideb Garbon 3 a thu hwnt.

Mae parhau â chefnogaeth uwch arweinyddiaeth, gan Gyngor Partneriaeth Cymru, a Phrif Weithredwyr ALl yn hanfodol i fwrw ymlaen â'n nodau newid hinsawdd a chyflawni'r buddion cymunedol ac economaidd ehangach a gwytnwch gwasanaeth. Mae'n rhaid i'r newid i economi carbon isel fod yn deg o ran costau a buddion ac rydym yn falch o weld y fframwaith Pontio Teg a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru'n ddiweddar.[2]

Argymhellion

Gofynnir i aelodau Cyngor Partneriaeth Cymru gytuno ar y canlynol:

- Mandad parhaus ar gyfer y Panel Strategaeth Hinsawdd dan arweiniad Prif Swyddog Gweithredol, a gefnogir gan Raglen Cefnogi Hinsawdd CLlLC (cyllid LlC wedi'i gadarnhau ar gyfer 2026-27);
- Bydd grwpiau tasg a gorffen y Panel Strategaeth Hinsawdd yn newid i grwpiau llywio gan chylch gorchwyl diwygiedig, ac adolygiad pan gyhoeddir Cyllideb Garbon 3;

[1] Cymru wedi ymrwymo i sero-net erbyn 2050, ond yr uchelgais yw taro'r nod yn gynt | LLYW.CYMRU
[2] Fframwaith Pontio Teg | LLYW.CYMRU

- Mae gan aelodau'r Cyngor Partneriaeth rôl allweddol wrth barhau i gefnogi gwaith hinsawdd o fewn eu sefydliadau ac ar draws rhwydweithiau, i gyflymu gwelededdd, y nifer sy'n manteisio ar hyn, a chynnydd.

Gofynnir hefyd i aelodau Cyngor Partneriaeth Cymru nodi cynnydd:

- Tuag at ymrwymiadau llywodraeth leol yng nghynllun lleihau carbon Cymru Sero Net ar gyfer Cyllideb Garbon 2 ar gyfer 2021-25 (gweler **Atodiad 2**), ym meysydd lliniaru adeiladau, cludiant, caffael a defnydd tir;

- Wrth ddatblygu a chyflawni ymrwymiadau addasu (gweler **Atodiad 2**).

Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Banel Strategaeth Hinsawdd Llywodraeth Leol

Cyfarfu'r Panel Strategaeth Hinsawdd, sy'n dod â Phrif Weithredwyr ALl (sydd hefyd yn cadeirio'r grwpiau tasg a gorffen), Cyfoeth Naturiol Cymru, Parciau Cenedlaethol, ac uwch swyddogion LlC ynghyd, ar 5 Chwefror 2026. Mae'r grŵp yn parhau i roi cyfeiriad strategol, ac fe drafodwyd y canlynol:

- Taflwybrau allyriadau presennol tuag at 2030 a'r pwysau a wynebir, gan gydnabod bod cyrraedd sero net ar draws pob rhan o'r sector cyhoeddus erbyn 2030 yn **uchelgais** a'r **targed** cyfreithiol ar gyfer Cymru gyfan yw 2050;
- Cynnydd a wneir ar draws Cymru a sut mae uchelgais 2030 wedi canolbwyntio ymdrechion a chyflymu newid;
- Pwysigrwydd y Panel Strategaeth Hinsawdd ac is-grwpiau a rhaglen CLlLC wrth gefnogi a llywio'r gwaith hwnnw;
- Pwysigrwydd parhau i nodi a rhannu datrysiadau ymarferol i oresgyn rhwystrau a wynebir wrth i waith pontio arloesol gael ei wneud gan gynghorau (gan osgoi'r angen i orfod mynd i'r afael â hyn 22 o weithiau);
- Dilyn dull yn seiliedig ar le o ran sero net, yn cynnwys caffael a sgiliau;
- Yr angen i nodi gofynion sgiliau mewn cynghorau i fynd i'r afael â'r heriau a wynebir, a datblygu ffyrdd o weithio ar y cyd ar hyfforddiant i ddiwallu'r anghenion hynny;
- Ail-ganolbwyntio'r naratif o sero net i iechyd, ansawdd yr aer, buddion economaidd a chymunedol, a chynaliadwyedd gwasanaeth.

Mae pob grŵp tasg a gorffen yn adrodd i'r Panel Strategaeth Hinsawdd ar gynnydd yn erbyn eu hymrwymiadau Llywodraeth Leol Cymru Sero Net perthnasol. Ceir crynodeb o'r cynnydd yn **Atodiad 1**.

Y prif bwyntiau i'w hystyried

- Mae Awdurdodau Lleol wedi cadarnhau pwysigrwydd y Panel Strategaeth Hinsawdd a Rhaglen Cefnogi Hinsawdd CLlLC o ran cadw sero net yn flaenoriaeth a gwella gwelededdd a gwneud penderfyniadau o fewn eu hawdurdodau.

- Mae pob un o bum grŵp tasg a gorffen y Panel Strategaeth Hinsawdd wedi gwneud cynnydd da, wedi'i gefnogi gan Raglen Cefnogi Hinsawdd CLlLC o ran gyrru ymgysylltiad cynyddol a chamau gweithredu gan gynghorau.

- Ar hyn o bryd, mae Archwilio Cymru'n adolygu cynnydd cyrff cyhoeddus wrth fynd i'r afael â'r prif faterion yn ei adroddiad o 2022 ar barodrwydd ar gyfer carbon sero net erbyn 2030. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2026. Yn dilyn hyn, bydd adolygiad wedi'i gomisiynu gan y Panel Strategaeth Hinsawdd o'r cynnydd tuag at gynlluniau a strategaethau datgarboneiddio cynghorau, gan adeiladu ar ganfyddiadau archwilio.[3]

- Er bod gwaith ALl ardderchog yn cefnogi cynnydd tuag at ymrwymiadau sero net, nid yw'n unffurf a chanolbwyntir o hyd ar fwy yn manteisio ar y gefnogaeth sydd ar gael a rhannu arfer da. Mae angen i berchnogaeth gyrru'r agenda sero net fod yn un ar lefel uwch, corfforaethol ac wedi ei wreiddio a'i gefnogi ar draws yr holl wasanaethau, ac nid yn gyfrifoldeb un swyddog neu dîm yn unig.

- Mae'r fethodoleg gyfredol ar gyfer adrodd yn flynyddol ar ddatblygiad sero net y sector cyhoeddus yn galluogi dadansoddiad 'pwynt mewn amser' yn unig ac nid cymhariaeth fanwl 'flwyddyn ar ôl blwyddyn' a fyddai o fudd i fecanweithiau adrodd cynghorau.

- Cefnogir y papur hwn gan y Panel Strategaeth Hinsawdd a Llefarwyr Hinsawdd CLlLC.

[3] Parodrwydd y sector cyhoeddus ar gyfer carbon sero net erbyn 2030: gwaith dilynol | Archwilio Cymru

ATODIAD 1 - Cynnydd grwpiau tasg a gorffen y Panel Strategaeth Hinsawdd, a gynorthwyir gan Raglen Cefnogi Hinsawdd CLILC

(a) Proses ddatgarboneiddio adeiladau:

- Mae Grant Gwres Carbon Isel Llywodraeth Cymru wedi galluogi datgarboneiddio dros 90 o adeiladau llywodraeth leol ar draws 18 o awdurdodau lleol, wedi'i yrru gan £80 miliwn o gyllid. Mae'r adeiladau sydd yn awr yn cynhyrchu llai o allyriadau carbon, ochr yn ochr â buddion ehangach, yn cynnwys ysgolion, cartrefi gofal, safleoedd hanesyddol, a chanolfannau hamdden. Mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd strategol y Grant Gwres Carbon Isel, ac mae pob prosiect yn astudiaeth achos ar gyfer cynghorau a chyrff cyhoeddus eraill.[4]
- Mae'r Grant Gwres Carbon Isel yn agored ar hyn o bryd ar gyfer ceisiadau newydd am gyllid yn 2026-2027.
- Mae cymorth LlC drwy Raglen Gydweithredu Cymru ar Asedau gan Ystadau Cymru wedi cynorthwyo 47 o raglenni ALl i ddatgarboneiddio (yn cynnwys ynni adnewyddadwy) a gwella bioamrywiaeth, a alluogwyd gan oddeutu £3 miliwn o gyllid.
- Datblygwyd y Cynllunydd Senario Sero Net[5] i roi adnodd i ALl allu cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau cynghorau ar ddatgarboneiddio adeiladau, gan rannu'r holl adeiladau yn ôl cost ac arbedion carbon er mwyn blaenoriaethu camau gweithredu.
- Lluniwyd a chyhoeddwyd darlun cynhwysfawr o'r gost a buddion ehangach, yn cynnwys economi ac iechyd, yn gysylltiedig â datgarboneiddio'r ystâd llywodraeth leol.[6] Mae'r adnoddau canfyddiadau cenedlaethol hyn hefyd yn fuddiol ar gyfer hysbysu polisi LlC ac adolygiadau gwariant, a chynnal ymgysylltiad cynghorau mewn datgarboneiddio adeiladau.
- Trafodaethau cynnar gyda Chaffael Masnachol LlC i greu neu nodi fframwaith/fframweithiau presennol ar gyfer awdurdodau lleol i ddod o hyd i'r mesurau yn y Cynllunydd Senario Sero Net ar y cyd: inswleiddio, pympiau gwres, ac ynni adnewyddadwy; ynghyd â systemau storio ynni batris, a sgiliau ar gyfer gosod a chynnal a chadw. Mae cyfleoedd sylweddol yma ar gyfer buddion economaidd ehangach.
- Ymuno a chydweithio gyda rhaglenni cefnogi LlC yn cynnwys y Grant Gwres Carbon Isel, Ystadau Cymru, a chynlluniau ynni ardal leol a rhanbarthol.

Mewn perthynas â'r trywydd, mae argaeledd y Cynllunydd Senario Sero Net, yn ogystal â'r gwaith a adroddwyd yn flaenorol gan CLILC, yn galluogi gwaith i fynd rhagddo ar yr ymagwedd strategol. Tra bod rhai ardaloedd/adeiladau wedi mynd 'cryn bellter ar hyd y daith', wedi eu cefnogi gan raglenni Grant Gwres Carbon Isel a Chymunedau Dysgu Cynaliadwy LlC, mae graddfa'r gwaith sydd ei angen yn helaeth o'i gymharu â'r cyllid sydd ar gael os ydym i 'gyrraedd ein nod'.

[4] Gwasanaeth Ynni: astudiaethau achos | LLYW.CYMRU
[5] Cynllunydd Senario Sero Net - CLILC
[6] Cynllunydd Senario Sero Net – Adroddiad Canfyddiadau Cenedlaethol - CLILC

(b) Proses ddatgarboneiddio cludiant:

- Mae 11% o fflyd y Llywodraeth Leol yn awr yn gerbydau allyriadau isel iawn.
- Roedd 64% o'r ceir Llywodraeth Leol a brynwyd yn 2025 yn gerbydau allyriadau isel iawn.
- Mae papur dysgu ar y cyd gyda'r Grŵp Rheolwyr Fflyd yn helpu i gyflymu newid ar draws yr holl gynghorau a chanolbwyntio ar gefnogaeth a hyfforddiant.
- Sefydlu grŵp ffocws o reolwyr fflyd i ddeall ymddygiadau a dylanwadau staff / gyrwyr unigol, gyda'r nod o ddefnyddio mewnwelediad ymddygiadol i gyflawni'r canlyniad a ddymunir, sef mwy o deithiau gyda cherbydau trydan.
- Mae ceir a faniau ysgafn trydan yn gallu gwneud arbedion gwirioneddol o gymharu â disel a phetrol pan mae costau oes gyfan yn cael eu hystyried, yn cynnwys cynnal a chadw a thanwydd. Mae costau cerbydau wedi dod i lawr, ac mae'r farchnad geir / faniau ysgafn yn ddigon aeddfed i ddiwallu anghenion ALl. Mae astudiaeth achos diweddar yn cynnwys CBS Merthyr Tudful yn prynu cerbydau trydan ar gost debyg i gerbydau petrol / disel a rhannu'r astudiaeth achos.

  Mewn perthynas â'r trywydd, mae cynnydd da wedi ei wneud, ond mae cynnydd nawr yn dibynnu, i raddau, ar fanteisio ar y gefnogaeth sydd ar gael, mabwysiadu dysgu o bob cwr o Gymru a thrawsnewid cyflymach. Yr ymrwymiad yw i bob car newydd a cherbyd nwyddau ysgafn fod yn gerbydau allyriadau isel iawn erbyn 2025. Nodwyd hefyd fod yna ystod o weithgareddau rhyng-gysylltiol a chyfleoedd yn digwydd ar draws y sector cyhoeddus sydd angen gwell cydgysylltu e.e. prynu cerbydau trydan ar y cyd, rhannu isadeiledd gwefru cerbydau trydan a chael cyfraddau corfforaethol is ar gyfer trydan (adnewyddadwy).

(c) Y cynnydd o ran datgarboneiddio caffael:

- Cydweithio gyda rhwydweithiau presennol yn cynnwys grŵp cyflawni'r de-ddwyrain a 'gweddill Cymru' i nodi bylchau, rhwystrau a chyfleoedd a chefnogi cynnydd Awdurdodau Lleol heb ddyblygu.
- Eirioli'r angen am fwy o gefnogaeth gan LlC yn cynnwys fframwaith / map llwybr clir a cherrig milltir at 2050.
- Ystyried 'Trywydd Awdurdod Lleol ar gyfer 2025' ar y cyd ar gyfer lleihau allyriadau cwmpas 3 a gwella adrodd haen 2. Byddai hyn yn cynnwys cyd-fynd â gwasanaethau lleihau carbon Busnes Cymru.
- Cynnal y Sesiwn Sbotolau Hinsawdd gyda Miller Research ar ganllawiau CLlLC ar gynlluniau lleihau carbon.
- Mae astudiaethau achos yn cynnwys y gwaith ar y cyd yn ne-ddwyrain Cymru (Ardal) a gogledd Cymru (Sir Ddinbych a Sir y Fflint) ar gefnogi cyflenwyr i ddarparu cynlluniau lleihau carbon.

  Mewn perthynas â'r trywydd, mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, ond mae angen rhannu arferion da sy'n dod i'r amlwg ymhlith yr anghenion 'cryn bellter ar y daith' cyn bod modd i Gynghorau honni eu bod yn 'cyrraedd ein nod'.

(d) Cynnydd datgarboneiddio defnydd tir:

- Daeth 166 o gynrychiolwyr (swyddogion ac aelodau etholedig) i'r seminarau hyfforddi rheoli carbon tir a'r sesiynau arddangos hyfforddiant derbyn defnyddiwr ar yr Adnodd Mapio Digidol Defnydd Tir (yn 2024-25), mewn partneriaeth â Netherwood Sustainable Futures, Costain a MapDataCymru.
- Yn dilyn y sesiynau hyn, bydd swyddogaethau technegol yr Adnodd Mapio Digidol yn cael eu datblygu ymhellach gyda'r adborth yn cael ei gasglu, a bydd y Canllawiau Defnydd Tir [7]yn cael ei adnewyddu gydag ystod eang o astudiaethau achos yn cael eu hamlygu.
- Gan fod cynnydd da wedi ei wneud gyda phob un o'r ymrwymiadau Defnydd Tir, a thra bod cynhyrchu Cyllideb Garbon 3 yn mynd rhagddo, mae cyfarfodydd y grŵp Tasg a Gorffen hwn yn cael seibiant am y tro.

  Mewn perthynas â'r trywydd, tra bod angen i hyn gael ei wreiddio yn y cynghorau cyn y gellir honni ein bod 'gryn bellter ar ein taith', mae'r sylfeini wedi'u gosod.

(e) Cynnydd o ran addasu:

- Cytunwyd ar ymrwymiadau addasu Llywodraeth Leol yn haf 2025. Mae'r ymrwymiadau hyn yn ymdrin â phum prif faes: Arweinyddiaeth, Cydweithio, Gwytnwch Gwasanaeth, Gwytnwch Cymunedol a Chynllunio Rhag Argyfwng. Mae cynllun gwaith i gefnogi Awdurdodau Lleol gyda darparu'r rheiny yn cael ei ddatblygu.

Gwaith trawsbynciol a chefnogaeth bwrpasol i awdurdodau lleol

Mae'r cynnydd i adrodd ar waith ehangach fel a ganlyn:

- Mae wyth o Sesiynau Sbotolau Hinsawdd CLlLC wedi cael eu cynnal hyd yma yn trafod ystod o bynciau sero net. Mae dros 370 o gynrychiolwyr (yn cynnwys swyddogion ac aelodau etholedig) wedi ymgysylltu i glywed am feysydd ymarfer, rhannu dysg, a hybu trafodaeth. Bydd pynciau yn y dyfodol yn cynnwys barn y cyhoedd a'r naratif ar newid hinsawdd, ac ynni o ffynonellau daear a dŵr hen bwll glo.[8]
- Yn ffenestr ariannu gyntaf Cronfa Cefnogi Newid Hinsawdd Bwrpasol newydd CLlLC, i gynorthwyo cynghorau â gwaith hinsawdd penodol yn ymwneud â lliniaru ac addasu, mae 17 o brosiectau wedi cael eu hariannu yn cynnwys dau mewn cydweithrediad â bwrdd gwasanaethau cyhoeddus a pharc cenedlaethol. Bydd y prosiectau'n cyflawni gwaith tuag at saith thema hinsawdd: Cyrraedd sero net; Cludiant; Ynni adnewyddadwy / Isadeiledd gwefru cerbydau trydan; Caffael; Addasu; Defnydd tir a Datgarboneiddio adeiladau. Bydd y cynghorau sydd heb wneud cais yn cael eu blaenoriaethu yn yr ail ffenestr ariannu rhwng Ionawr a Mawrth 2026.
- Mae cynnig wedi cael ei wneud i Gyfarwyddwyr Amgylchedd Llywodraeth Leol i gefnogi nifer fechan o gynghorau i weithredu a phroffilio canllawiau newydd CLlLC

[7] Canllawiau ac Adnodd Defnydd Tir ac Atafaelu Carbon CLlLC - CLlLC
[8] Sesiynau Sbotolau Hinsawdd - CLlLC

ar ystyriaethau carbon a bioamrywiaeth mewn achosion busnes o fewn eu hawdurdodau.[9]

Adroddiadau blynyddol sero net sector cyhoeddus LIC

Yn adroddiad blynyddol sero net sector cyhoeddus 2024/25, mae'r prif gynnydd mewn allyriadau'r sector llywodraeth leol yn cael ei lywio gan wariant cadwyn gyflenwi, lle mae allyriadau cadwyn gyflenwi cwmpas 3 wedi cynyddu 24.3% ers y llynedd. Mae gostyngiadau bach mewn allyriadau adeiladau a chynnydd bach mewn allyriadau cludiant wedi cydbwyso'i gilydd. Mae hyn yn amlygu'r angen parhaus i wneud cynnydd wrth fynd i'r afael ag allyriadau cadwyn gyflenwi cwmpas 3.

Casgliad

Mae cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn ymrwymiadau Cymru Sero Net a'r map llwybr datgarboneiddio'r sector cyhoeddus er gwaethaf y cyfyngiadau cyllidebol heriol sy'n wynebu pob cyngor. Fodd bynnag, gallai rhai o'r mesurau arbed arian a/neu gynhyrchu incwm dros eu cyfnod, yn ogystal â chyfleoedd drwy waith caffael ar y cyd, hyfforddiant a datblygu sgiliau 'gwyrdd', ac mae'r rhain yn negeseuon allweddol i awdurdodau lleol sy'n parhau drwy Raglen Cefnogi Hinsawdd CLlLC.

[9] Adnoddau - Integreiddio Carbon a Bioamrywiaeth - CLlLC

ATODIAD 2 – ymrwymiadau Llywodraeth Leol

Mae'r ymrwymiadau y mae llywodraeth leol wedi cytuno arnynt ac sydd wedi'u cynnwys yng Nghymru Sero Net i'w gweld yn y tabl isod.

Ymrwymiadau Llywodraeth Leol Cymru Sero Net
Adeiladau • Datblygu a chyflawni cynllun strategol ar gyfer datgarboneiddio ystâd awdurdodau lleol. Ystadau Cymru fel arweinydd strategol: • Cynllun strategol ar gyfer datgarboneiddio adeiladau erbyn diwedd 2023. • Pob adeilad cyhoeddus i gael gwres carbon isel erbyn 2030. • Pob adeilad sector cyhoeddus newydd yn cael eu hadeiladu i safon sero net.
Caffael • Datblygu dealltwriaeth o broffil allyriadau'r holl nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu caffael erbyn diwedd 2022. • Manylebau lleihau carbon ym mhob contract newydd neu gontractau wedi eu hadolygu. • Canolbwyntio ar nifer o gontractau blaenoriaeth a rhannu dysgu yn ymwneud â datgarboneiddio ar draws Awdurdodau Lleol erbyn diwedd 2022 – i ddatblygu dull datgarboneiddio i'w gymhwyso i bob contract erbyn 2023.
Symudedd a Thrafnidiaeth • Adeiladu ar adolygiadau fflyd a datblygu cynlluniau ar gyfer trawsnewid fflyd, gan gynnwys seilwaith gwefru cerbydau trydan, pob car newydd a cherbydau nwyddau ysgafn yn gerbydau allyriadau isel iawn erbyn 2025, lleihau ôl troed carbon bysiau, tacsis a cherbydau llogi preifat i sero erbyn 2030. • Adolygiad o'r fflyd lwyd i'w gwblhau erbyn diwedd 2022 (gan weithio gyda Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru). • Cefnogi gweithio o bell lle bo modd, gartref neu mewn canolfannau. Annog teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus.
Defnydd Tir • Mapio daliadau tir awdurdodau lleol erbyn Ebrill 2022 i nodi mathau o dir a'u potensial ar gyfer atafaelu carbon, ynni adnewyddadwy a rheoli llifogydd. • Atafaelu carbon yn cael ei ystyried fel pwrpas craidd ar gyfer tir cyhoeddus gan arweinwyr. • Datblygu rhaglen hyfforddi a phrentisiaeth 5 mlynedd ac adfer mawndiroedd i gefnogi'r gadwyn gyflenwi.

Addasu

Mae'r grŵp tasg a gorffen addasu, a gynhaliodd ei gyfarfod cyntaf ym mis Mawrth 2024, yn cefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru 2024, drwy ganolbwyntio ar bedwar maes:

1. Partneriaeth a Chydweithio
2. Gwytnwch Gwasanaeth
3. Gwytnwch Cymunedol
4. Arweinyddiaeth